# Adroddiad Blynyddol 2023/24

## 1. Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned y Fali ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi fel gofyniad uniongyrchol o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n ceisio sicrhau llywodraethu cadarn a rheolaeth effeithiol o arian cyhoeddus. Bwriad yr adroddiad yw cynyddu tryloywder ac ymwybyddiaeth o waith y cyngor cymuned.

## 2. Y Cyngor

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 roedd Cyngor Cymuned y Fali yn cynnwys 13 aelod ac un gweithiwr sef y Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol.

**Cadeirydd y Cyngor** Cynghorydd Neil R Tuck


**Is-Gadeirydd** Cynghorydd Gordon David Browne MBE YH

**Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol** Mrs Rhianwen M Sheldon

| | |
|---|---|
| **Ward Gorad**<br>Cyng Mavis Swaine-Williams<br>Cyng Neil R Tuck<br>Cyng Graham Richard Edward Smith (tan 18/9/23)<br>Cyng Charles Thornhill | **Ward y Pentref**<br>Cyng Gordon David Browne MBE YH<br>Cyng Bill Rogerson MBE<br>Cyng Ken Taylor<br>Cyng Angela Walker<br>Cyng Dillon James Hughes |
| **Ward y Gorllewinol**<br>Cyng Helen Williams<br>Cyng Delyth Jones (tan 22/6/23)<br>Cyng Sion Williams | **Ward Llanynghenedl**<br>Cyng Iwan Tudur Jones |

Mae rhagor o wybodaeth am bwyllgorau a chynrychiolaeth ar gael drwy'r ddolen we ganlynol; cynghorwyr-cymunedol.

## 3. Ein Hardal




## 4. Manylion Cyswllt Allweddol

Prif gyswllt y Cyngor Cymuned yw'r Clerc, Mrs Rhianwen Sheldon.

Y cyfeiriad cyswllt yw 27 Alltwen, Llysfaen, Bae Colwyn, Conwy LL29 8PG Rhif ffôn: 01492 478405 / 07786253828

Gellir cyrraedd y Clerc hefyd drwy e-bost ae valleycommunitycouncil@gmail.com

Gellir cyrraedd Cadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Neil R Tuck trwy e-bost yn ar chairman.valleycommunitycouncil@gmail.com


Mae dogfennau allweddol, cofnodion cyfarfodydd, newyddion a gwybodaeth gyffredinol ar gael ar ein gwefan: www.cyngor-cymuned-fali.cymru

## 5. Gwybodaeth Ariannol

Rhoddir crynodeb isod o sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24:


### Incwm:

Derbyniodd Cyngor Cymuned y Fali Praesept o £46,964 gan yr Awdurdod Lleol yn ogystal â £14,239 i ddarapru ei wasanaethau yn 2023/24 fel y nodir yn y siart isod.



## Gwariant:

Cyfanswm y gwariant yn ystod 2022/23 oedd £50,894, gweler y siart isod.




## Cysoniad Banc

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen ar 1/4/2023 | £ 48,838 |
| Derbyniadau | £ 61,203 |
| Taliadau | £ 50,894 |
| ***Balans a gariwyd ymlaen ar 31ain March 2024*** | ***£59,147*** |

Roedd gan Gyngor Cymuned y Fali asedau sefydlog gwerth £230,304 ar 31 Mawrth 2024.

Cyflwynir y cyfrifon i Archwilio Cymru i'w hadolygu bob blwyddyn.

## 6. Perthynas gyda'r Awdurdod Lleol

Mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gyda Chynghorwyr Sir Bro'r Llynnoedd yn ystod y flwyddyn. Bydd y ddau Gynghorydd Sir, Ken Taylor a Gwilym Jones yn mynychu cyfarfodydd busnes misol y Cyngor. Mae'r Cynghorydd Ken Taylor hefyd wedi bod yn Gynghorydd Sir a Chymuned ers sawl blwyddyn. Mae gwybodaeth bob amser yn cael ei rhaeadru trwy Gadeirydd y Cyngor a'r clerc. Mae cynrychiolwyr wedi mynychu'r holl gyfarfodydd Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned gyda'r Awdurdod ac wedi darparu diweddariadau i'r cyfarfodydd Cyngor Cymuned a ganlyn. Mae materion a godir gan Gynghorwyr yn ymwneud â chyfrifoldeb Awdurdod Lleol yn cael eu huwchgyfeirio i swyddogion priodol o fewn yr Awdurdod i'w datrys.

Mae'r holl argymhellion a wnaed mewn adroddiadau perthnasol a gynhyrchwyd gan Bwyllgor Safonau'r Awdurdod Lleol mewn perthynas ag archwiliadau cynghorau tref a chymuned wedi'u rhoi ar waith.

## 7. Hyfforddiant

Mabwysiadwyd cynllun hyfforddi ar gyfer y Cyngor sy'n adlewyrchu anghenion unigol y Cynghorwyr. Mae pob Cynghorydd Cymuned yn mynychu cyrsiau hyfforddi fel y bo'n briodol. Mae Un Llais Cymru yn darparu sesiynau hyfforddi rheolaidd i gynghorwyr cymuned i'w cefnogi yn eu rôl.

## 8. Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion am waith y Cyngor Cymuned yn ystod y flwyddyn.

## 9. Llwyddiannau a Gweithgareddau yn ystod 2023/24

Darparodd y Cyngor wasanaethau a chynnal yr asedau canlynol ar gyfer y gymuned:



- Y parc 20.3 erw ym Mharc Mwd a'r Pafiliwn

**Cafodd y pafiliwn ei drwsio wedi difrod storm**

- Mynwent Gyhoeddus Ynys Wen a chynnal cofnodion claddu
- Prydlesu'r lle chwarae ger yr Ysgol gan yr Awdurdod Lleol a chynnal yr offer chwaraepali a thalu am gasglu sbwriel ar y safle
- Cynnal arolygon cyflwr ac asesiadau risg ar yr holl offer chwarae yn y gymuned i sicrhau iechyd a diogelwch
- Cloc y Mileniwm
- 14 o Gysgodfeydd Bws
- 21 o feinciau cyhoeddus a 3 bwrdd picnic







**Peintio cysgofannau Bws**

**Amnewid Mainc ar ôl difrod maleisus**





**Meinciau wedi'u hadnewyddu ac amnewid**

- 2 hysbysfwrdd cymunedol
- Tir ym Mharc Branwen
- Cofeb Rhyfel
- Pob Llwybr Cyhoeddus ar ran yr Awdurdod Lleol




**Hybu treftadaeth a harddwch yr ardal**

**Torrwyd coed yn ôl oherwydd Clefyd Coed Ynn a derbyniwyd grant gan Cadwch Gymru'n Daclus - Lleoedd Lleol ar gyfer Natur**









**Planwyd Coed ffrwythau a bylbiau brodorol gyda chymorth gwirfoddolwyr a Plant o Ysgol Gymunedol y Fali**

- Prydlesu maes parcio cyhoeddus gan yr Awdurdod Lleol I ddarparu parcio am ddim
- Cynrychioli trigolion, drwy gyfleu unrhyw bryderon gan y Gymuned i'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru lle bo angen
- Trosglwyddo gwybodaeth sy'n effeithio ar y gymuned i drigolion



**Clywed barn a lleisiau pobl ifanc yn y pentref**

**Ymgynghorwyd hefyd drwy gyfarfodydd ac arolygon gyda'r gymuned ehangach ynghylch cynlluniau datblygu cwrt pêl-fasged Parc Mwd**

- Negydu a dylanwadu ar y sefydliadau eraill hynny sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y gymuned
- Ymgynghori ar geisiadau cynllunio
- Ymgynghori a rhoi ein barn ar faterion cynnal a chadw priffyrdd, materion tawelu traffig, materion parcio, enwi strydoedd ac ati.
- Ymgynghori ar bolisi lleol a chenedlaethol ar ran y gymuned
- Galluogi cyfarfod hybrid i sicrhau hygyrchedd

**Gwasanaeth Sul y Cofio yn Ysgol Gynradd Gymunedol y Fali, Eglwys Santes Fair ag wrth Cofeb Ryfel Ynys Wen**





Mae'r Cyngor hefyd wedi cefnogi eraill sydd yn rhoi budd i'r gymuned, megis:

- £50 Clwb Pel Droed Iau Y Fali
- £50 Grŵp Cymunedol y Fali tuag at goeden Nadolig yn y pentref village
- £50 SSAFFA
- £100 Ambiwlans Awyr Cymru
- £100 Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Môn
- £50 Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Môn
- £10 Y Lleng Brydeinig Frenhinol a hefyd wedi gosod torchau pabi yn yr Ysgol ac wrth Gofeb Rhyfel Mynwent Ynys Wen
- £50 Papur Bro 'Y Rhwyd'

## 10. Effeithiolrwydd Cyfarfodydd y Cyngor

Dangosai'r ffigurau isod gyfraddau presenoldeb yng Nghyfarfodydd y Cyngor

- Cyfarfodydd y Cyngor Cymuned 70%
- Y Pwyllgor Cyllid 90%
- Pwyllgor Parciau 79%
- Pwyllgor Mynwent Ynys Wen 80%

## 11. Nodau ac Amcanion ar gyfer 2024/25 a Chyfeiriad Startegol

Yn 2024825 bydd y Cyngor Cymuned yn parhau i wasanaethu'r gymuned yn unol â'i ddyletswyddau a'i phwerau o dan ddeddfwriaeth.

**Gweledigaeth:** Y Fali – man lle mae unigolion a theuluoedd yn ffynnu a lle mae pobl eisiau byw

**Datganiad Cenhadaeth:** Bod yn Gyngor sy'n ymgysylltu'n llawn â'r gymuned ehangach ac i ymdrechu i wneud ein gorau glas dros bob preswylydd yn y Fali

### Nodau

- Darparu llywodraethiad effeithiol, effeithlon ac atebol ar gyfer y gymuned, gan alluogi trigolion i gymryd rhan ym mywyd y gymuned a'i datblygiad yn y dyfodol.
- Bod yn llais cryf i drigolion a busnesau lleol, gan weithio i wella'r ardal gymunedol gyffredinol a adeiladwyd ac yn naturiol, tra'n gwarchod ei hiaith, ei diwylliant a'i threftadaeth.

**Amcanion**

**Thema 1 – Llywodraethiant Cyngor Cymuned y Fali**

1. Gwella cyfathrebu rhwng y cyngor Cymuned a thrigolion a busnesau
2. Gwella effeithiolrwydd y Cyngor Cymuned
3. Cynyddu dylanwad / cydlynu mewn materion sy'n effeithio ar Gymuned
4. Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg

**Thema 2 - Hamdden a Chymuned**

5. Gwella cyfleusterau hamdden ar gyfer y plant a phobl hŷn yn y gymuned
6. Ymgynghori â'r gymuned i nodi anghenion a safbwyntiau lleol y gellir mynd i'r afael â hwy drwy gamau adeiladol y cyngor

**Thema 3 - Ymddangosiad y Plwyf, yr Amgylchedd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Diogelwch**

7. Cadw ffyrdd a lonydd yn lân er mwynhad trigolion ac ymwelwyr
8. Cynnal Asedau Cymunedol yn effeithiol
9. Gwella seilwaith lleol
10. I ddathlu a diogelu'r dirwedd leol a chael dweud eu dweud am ei rheolaeth yn y dyfodol.
11. Lleihau troseddu a helpu trigolion a busnesau i deimlo'n fwy diogel rhag trosedd

**Thema 4 – Priffyrdd, Trafnidiaeth a Mynediad**

12. Mynd i'r afael â phryderon priffyrdd trigolion a busnesau a chwilio am atebion

**Thema 5 – Economi a Thwristiaeth**

13. Annog datblygiad economaidd.

**Thema 6 - Tai ac Iechyd**

14. Parhau i wneud sylwadau ar yr holl ddogfennau cynllunio strategol allweddol ac ymgynghoriadau sy'n effeithio ar y Gymuned gan sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth y Cyngor Cymuned o'r cyd-destun lleol yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau
15. Annog trigolion lleol i gymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriadau cynllunio strategol sy'n effeithio ar y gymuned
16. Adolygu'r ffordd y mae'r Cyngor Cymuned yn ystyried ac yn gwneud ymatebion ar geisiadau cynllunio.

## 12. Gofynion cyllidebol yn y dyfodol

Yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2023 cymeradwyodd y Cyngor y gyllideb ddrafft a phenderfynwyd gosod y praesept (trethiant lleol) am £46,963.55 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 megis dim cynydd ar y flyddyn ariannol 2023/24.